TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Awst 2021
**Enw'r Ceisydd:** [redacted]
**Cyfeiriad y sawl sy'n gwneud y cais:** [redacted]

## Adolygiad Mewnol Rhyddid Gwybodaeth – Cadarnhau'r Datgeliad Gwreiddiol

Annwyl Mr Clarke,

Rydw i'n ysgrifennu atoch yn dilyn eich cais am adolygiad mewnol o'n hymateb (dyddiedig 13 Gorffennaf 2021) i'ch cais am wybodaeth ynghylch cyfleusterau teledu cylch cyfyng yng ngorsaf Caerdydd Canolog a mynediad at y cyfleusterau hyn ar gyfer Staff TrC, a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rydw i'n aelod uwch o staff na'r swyddog datgelu gwreiddiol yn yr achos hwn, ac rydw i wedi adolygu'r ymateb. Rydw i wedi dewis cadarnhau'r datgeliad gwreiddiol am resymau y byddaf yn eu hamlinellu nawr.

Dyma oedd eich cais cychwynnol:

> *"A wnewch chi gadarnhau a oes cyfleusterau yng Nghymru, ac yng Nghaerdydd yn benodol sy'n caniatáu i staff Trafnidiaeth Cymru chwarae unrhyw luniau teledu cylch cyfyng a recordiwyd yng ngorsaf Caerdydd Canolog ac a gadwyd ar ddisg. Os oes modd chwarae unrhyw luniau teledu cylch cyfyng o'r fath a lwythwyd i lawr a'u cadw, a oes modd ymdrin â hyn yng ngorsaf Caerdydd Canolog neu yn rhywle arall, ac o felly, ble?"*

Rwy'n fodlon bod ein hymateb wedi ateb eich cwestiynau ac rwy'n anghytuno'n barchus â'ch haeriad canlynol: 'ni atebwyd fy nghais, er ei bod yn ymddangos fy mod wedi derbyn cryn dipyn o ddeunydd arall di-fudd'. Er mwyn bod yn gyflawn, ymgynghorwyd â'r tîm sy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol am yr eildro a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth bellach i'w rhoi yn ychwanegol i'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes.

Os ydych chi efallai'n anfodlon am na ddarparwyd rhestr lawn o leoliadau ledled Cymru lle gellir gweld teledu cylch cyfyng, gallaf gadarnhau na fyddem yn darparu'r wybodaeth hon am resymau diogelwch cenedlaethol. Felly, mae'n briodol i ddal yr wybodaeth hon yn ôl o dan adran 38 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Iechyd a Diogelwch). Mae rhagor o wybodaeth am yr eithriad hwn ar gael yma.

I ailadrodd y wybodaeth a ddarparwyd yn ein hymateb cychwynnol: er bod modd gweld teledu cylch cyfyng yn fyw mewn rhai lleoliadau wedi'u staffio, dim ond Clercod Teledu Cylch Cyfyng TrC sy'n monitro'r camerâu teledu cylch cyfyng yn adran Reoli TrC, yng Nghanolfan Gweithrediadau Rheilffyrdd Cymru (WROC), Caerdydd, sy'n gallu ailchwarae a llwytho lluniau i lawr. Rhaid defnyddio ffurflen briodol TrC i gyflwyno bob cais mewnol (staff TrC) i lwytho lluniau teledu cylch cyfyng i lawr, a rhaid cael cymeradwyaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol. Ar wahân i'r WROC, nid oes unrhyw leoliadau eraill yn ardal Caerdydd lle gellir gweld lluniau teledu cylch cyfyng; er bod cyfleusterau dros dro ar gael yng Ngorsaf Caerdydd Canolog i ddarparu lleoliad i'r Ganolfan Rheoli Torfeydd (CMC) ar ddiwrnodau digwyddiadau. Nid yw'r cyfleuster hwn yn bodoli o ddydd i ddydd.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Rydw i'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi rhoi digon o sicrwydd i chi bod yr holl wybodaeth briodol wedi cael ei darparu mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol hwn, mae eich hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i amlinellu isod.

Yn gywir,

**Heather Clash**

Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu
Trafnidiaeth Cymru

**Hawliau Apelio**

Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol hwn, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

[illegible]